

CYMRAEG



ADDYSG CYMRU  
EDUCATION WALES  
cenhadaeth ein cenedl | our national mission



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



**Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg**

## Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg

### Cynulleidfa

Cyrff sy'n ymwneud â'r gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg a datblygu sgiliau Cymraeg ymarferwyr addysg, neu sydd â diddordeb yn y maes, gan gynnwys: ysgolion, partneriaethau addysg gychwynnol athrawon (AGA), undebau athrawon, consortia a phartneriaethau rhanbarthol, awdurdodau lleol, Estyn, Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA), Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol (AGAA), y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, darparwyr y Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg, CYDAG, adrannau Cymraeg prifysgolion, Mudiad Meithrin, Comisiynydd y Gymraeg ac eraill â diddordeb.

### Trosolwg

Mae'r cynllun hwn yn nodi'r camau y bydd Llywodraeth Cymru, ynghyd â'i phartneriaid, yn eu cymryd dros y 10 mlynedd nesaf i gynyddu nifer yr athrawon a'r cynorthwyr sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg ac addysgu'r Gymraeg. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys camau gweithredu i gefnogi datblygiad sgiliau iaith Gymraeg ac arbenigedd y gweithlu presennol. Mae hefyd yn cynnwys camau gweithredu i ddatblygu capasiti arweinyddiaeth yn y sector cyfrwng Cymraeg a chymorth i arweinwyr ddatblygu'r Gymraeg a diwylliant yn eu hysgolion.

### Camau i'w cymryd

Mae rolau a chyfrifoldebau'r rhai sy'n ymwneud â gweithredu'r cynllun wedi eu cynnwys.

### Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Is-adran Addysgeg, Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol

Y Gyfarwyddiaeth Addysg

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ

e-bost: [athrawoncc.wmteachers@llyw.cymru](mailto:athrawoncc.wmteachers@llyw.cymru)

 [@LIC\\_Addysg](https://twitter.com/LIC_Addysg)

 [Facebook/AddysgCymru](https://www.facebook.com/AddysgCymru)

### Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn [llyw.cymru/addysg-a-sgiliau](https://llyw.cymru/addysg-a-sgiliau)

### Dogfennau cysylltiedig

'Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg: crynodeb o gynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg'

'Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg: dadansoddiad data'

## **Cynnwys**

<b>Rhagair gan y Gweinidog</b>	<b>2</b>
<b>Cyflwyniad</b>	<b>3</b>
<b>Gweledigaeth</b>	<b>6</b>
<b>Amcanion a champau gweithredu allweddol</b>	<b>8</b>
Nod 1: Cynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu'r Gymraeg fel pwnc ac addysgu pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg	8
Nod 2: Cynyddu nifer yr ymarferwyr sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg sy'n cefnogi dysgwyr	22
Nod 3: Datblygu sgiliau Cymraeg pob ymarferydd a'i arbenigedd i addysgu'r Gymraeg ac i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	29
Nod 4: Meithrin gallu arweinwyr ysgolion cyfrwng Cymraeg a sicrhau bod gan bob arweinydd y sgiliau sydd eu hangen i gynllunio datblygiad y Gymraeg yn strategol o fewn diwylliant o ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu	38
<b>Rolau a chyfrifoldebau</b>	<b>41</b>
<b>Monitro</b>	<b>44</b>
<b>Atodiad 1: Y daith i ddod yn athro a'r rhanddeiliaid perthnasol</b>	<b>45</b>
<b>Atodiad 2: Dysgu proffesiynol iaith Gymraeg i ymarferwyr addysg</b>	<b>47</b>

## Rhagair gan y Gweinidog

Rwy'n falch iawn o gael cyhoeddi'r cynllun 10 mlynedd hwn ar sut y byddwn yn cymryd camau, ynghyd â'n partneriaid, i ddatblygu'r gweithlu Cymraeg yn ein hysgolion.


Mae ein huchelgais i weld miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn galw am newidiadau a gweithredu pellgyrhaeddol. Mae ein cwricwlwm newydd yn rhoi lle canolog i'r Gymraeg ym maes dysgu yng Nghymru, ond os ydym i greu cenedl lle mae pobl yn siarad ac yn defnyddio'r iaith fel rhan o'u bywydau bob dydd, mae cynyddu nifer y dysgwyr sydd mewn ysgolion Cymraeg yn hanfodol. Ac er mwyn gwneud hynny, mae angen gweithlu cryf a medrus arnom.

Rydym eisoes wedi gosod seiliau cadarn. Fodd bynnag, er bod gennym athrawon a staff cymorth rhagorol yn ein hysgolion Cymraeg, gall recriwtio'r staff sydd eu hangen fod yn her. Mae angen inni gymryd camau i ddod dros y rhwystrau hyn yn y tymor byr, gan ddatblygu ffyrdd mwy cynaliadwy ar yr un pryd o gynyddu ein gweithlu yn sylweddol dros y 10 mlynedd nesaf, er mwyn galluogi awdurdodau lleol i gyflawni eu cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg. Mae hyn yn galw am weithredu radical ac arloesol; ni allwn wneud hyn ar ein pen ein hunain.

Mae angen inni hefyd barhau â'n hymdrechion i ddatblygu sgiliau Cymraeg ein gweithlu addysg a sicrhau bod gan ein harweinwyr yr wybodaeth a'r sgiliau i gynllunio'n strategol a datblygu'r Gymraeg o fewn ein hysgolion.

Rydym wedi ymgysylltu'n eang â rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol er mwyn deall y problemau a datblygu'r atebion sydd eu hangen. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ddatblygu'r cynllun hwn, ac yn enwedig i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen sydd wedi cydweithio â ni i awgrymu, datblygu a mireinio'r camau gweithredu.

Mae yna lawer i'w wneud. Rydym am barhau i ddenu a chefnogi'r athrawon, y cynorthwywyr a'r arweinwyr gorau ar gyfer ein hysgolion. Mae'r ymroddiad, y brwdfrydedd a'r ymrwymiad aruthrol ymhlith ein partneriaid wedi fy syfrdanu, ac rwy'n hyderus y gallwn, gyda'n gilydd, weithredu camau'r cynllun er mwyn cenedlaethau'r dyfodol.



**Jeremy Miles AS**  
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**

## Cyflwyniad

Diben y cynllun 10 mlynedd hwn yw nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd mewn partneriaeth ag amrywiaeth o sefydliadau a rhanddeiliaid i gynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu Cymraeg fel pwnc, neu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, er mwyn meithrin sgiliau Cymraeg ein gweithlu addysg a sicrhau bod gan ein harweinwyr yr wybodaeth a'r sgiliau i gynllunio a datblygu'r Gymraeg yn strategol yn ein hysgolion. Er mwyn gwireddu ein gweledigaeth ar gyfer gwlad lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, a chyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru, mae angen gweithlu medrus yng Nghymru.

Mae'r system addysg yn cyflawni rôl hanfodol yn y gwaith o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, drwy gynyddu nifer y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog a hefyd drwy sicrhau y caiff pob dysgwr yng Nghymru gyfle i feithrin ei sgiliau Cymraeg yn ddigonol i'w defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd. Rydym eisoes wedi gosod sylfeini cadarn ers cyhoeddi ein strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg gyntaf yn 2010 a 'Y Gymraeg mewn addysg: cynllun gweithredu 2017 i 2021' yn 2017. Y cam nesaf ar y daith yw gwreiddio rhai o'n polisiau allweddol a sicrhau y bydd gwahanol rannau o'r system yn cydweithio i gyflawni ein nodau.

Ers cyhoeddi 'Y Gymraeg mewn addysg: cynllun gweithredu 2017 i 2021' yn 2017, mae nifer o adroddiadau a dogfennau allweddol wedi cael eu cyhoeddi, ac fe'u defnyddiwyd i lywio'r cynllun hwn. Ymhlith y rhain mae:

- ['Gwerthusiad o Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg mewn Addysg Gychwynnol i Athrawon'](#), 2018
- ['Gwella'r broses cynllunio addysg Gymraeg'](#), 2019
- ['Y Gymraeg a'r gweithlu addysg statudol, nodyn briffio'](#), 2020
- ['Gwerthusiad o'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg ar gyfer ymarferwyr addysg'](#), 2021
- ['Adolygiad cyflym o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol'](#), 2021
- adroddiad a baratowyd gan CYDAG ar ran Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA), 2021
- adroddiadau arolygu a thematig Estyn
- amrywiaeth o ddata a gwaith dadansoddi.

Ein nodau, wrth roi'r cynllun hwn ar waith yw:

- cynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu'r Gymraeg fel pwnc ac addysgu pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg

- cynyddu nifer yr ymarferwyr sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg sy'n cefnogi dysgwyr
- datblygu sgiliau Cymraeg pob ymarferydd a'i arbenigedd i addysgu'r Gymraeg ac i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
- meithrin gallu arweinwyr ysgolion cyfrwng Cymraeg a sicrhau bod gan bob arweinydd y sgiliau sydd eu hangen i gynllunio datblygiad y Gymraeg yn strategol o fewn diwylliant o ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu.

Mae'r heriau sy'n ein hwynebu wrth i ni geisio cynyddu nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg yn arbennig o gymhleth. Mae sicrhau cyflenwad digonol o athrawon sy'n siarad Cymraeg yn allweddol i lwyddiant strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Mae'r darlun mewn addysg gynradd yn un cymysg. Mae rhai ardaloedd yng Nghymru yn ei chael yn anodd recriwtio athrawon, ond mae eraill yn profi cyflenwad gwell. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa ym maes addysg uwchradd yn llawer mwy heriol, ac mae'r niferoedd sy'n ymuno â hyfforddiant addysg gychwynnol i athrawon er mwyn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion uwchradd yn gostwng. Nid Cymru yw'r unig genedl i weld gostyngiad yn nifer y bobl sy'n dewis addysgu fel gyrfa. Bu dirywiad yn fyd-eang, yn enwedig mewn addysg uwchradd. Er bod angen monitro'r sefyllfa mewn addysg gynradd yn ofalus dros y blynyddoedd i ddod, o ystyried yr heriau sylweddol mewn addysg uwchradd, mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar gamau'n ymwneud â'r sector hwnnw.

Mae angen mwy o athrawon â sgiliau Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg hefyd, a hynny i addysgu Cymraeg fel pwnc mewn ysgolion uwchradd ac er mwyn helpu i addysgu'r Gymraeg fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru.

Nid ydym yn diystyru'r heriau sydd o'n blaenau ac ni all Llywodraeth Cymru gyflawni'r nodau hyn ar ei phen ei hun. Rydym wedi cydweithio â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid i ddatblygu'r cynllun hwn ac mae'n rhaid i bob un ohonom nawr gyfrannu at y broses o'i roi ar waith.

Mae 2 ddogfen ar wahân yn cyd-fynd â'r cynllun. Mae'r ddogfen dadansoddi data yn darparu ystod o ddata ar y gweithlu addysg o nifer o ffynonellau. Defnyddiwyd y data hwn i lywio'r camau gweithredu yn y cynllun. Ein bwriad yw diweddarau'r dadansoddiad hwn ar adegau addas er mwyn defnyddio'r data diweddaraf wrth i ni fonitro a mireinio'r camau gweithredu yn y cynllun hirdymor hwn. Mae'r ail ddogfen yn grynodeb o gynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg (CSCA) awdurdodau lleol ar gyfer y 10 mlynedd nesaf. Mae'r awdurdodau lleol wedi nodi eu bwriad i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn eu hardaloedd er mwyn cyrraedd targedau Cymraeg 2050, ac mae'r ddogfen yn rhoi crynodeb byr o sut y bydd cynlluniau awdurdodau lleol yn effeithio ar gapasiti athrawon. Byddwn hefyd yn diweddarau'r ddogfen hon ar adegau addas wrth i awdurdodau lleol symud ymlaen i gyflawni eu CSCA.

Er mai canolbwyntio ar ddatblygu'r gweithlu ysgolion yn unig a wna'r cynllun hwn, caiff ei roi ar waith ochr yn ochr, ac ar y cyd, â nifer o bolisiau allweddol eraill, gan gynnwys:

- rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith
- datblygiadau o ran cyfleoedd dysgu proffesiynol i ymarferwyr, gan gynnwys athrawon sydd yng nghyfnod cychwynnol eu gyrfa a chynorthwywyr addysgu
- rhoi CSCA awdurdodau lleol ar waith
- datblygu darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg
- ein hymrwymiad i ddatblygu model cynaliadwy ar gyfer athrawon cyflenwi sydd â gwaith teg wrth ei wraidd
- rhoi Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ar waith
- trosglwyddo iaith o fewn y teulu
- addysg a hyfforddiant ôl-16 cyfrwng Cymraeg.

## Gweledigaeth

**Ein gweledigaeth yw galluogi pob dysgwr i feithrin ei sgiliau Cymraeg a defnyddio'r iaith yn hyderus yn ei fywyd bob dydd.**

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon, rhaid i ni ddatblygu gweithlu addysg o ansawdd da i sicrhau bod pob dysgwr yn cael budd o gwricwlwm o'r radd flaenaf a'i fod yn mwynhau dysgu ac addysgu sy'n ei ysbrydoli i lwyddo mewn cymuned addysg gydweithredol ac arloesol, wedi ei chynllunio'n strategol a'i harwain yn effeithiol.

Bydd angen sawl cam gweithredu arnom i greu darpariaeth gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Gwnaethom gyhoeddi nifer o egwyddorion arweiniol yn 'Y Gymraeg mewn addysg: cynllun gweithredu 2017 i 2021' er mwyn meithrin dealltwriaeth gyffredin o rôl dysgu ac addysgu'r Gymraeg, a thrwy gyfrwng y Gymraeg, ym mhob ysgol yng Nghymru a darparu sail ar gyfer datblygiadau polisi yn y dyfodol. Mae'r egwyddorion arweiniol yn parhau i fod yn sail ar gyfer y cynllun hwn.

- Cydnabyddir a gwerthfawrogir bod dysgu ac addysgu'r Gymraeg yn rhan annatod o system addysg Cymru o'r blynyddoedd cynnar hyd at ddarpariaeth ôl-orfodol.
- Drwy'r cwricwlwm newydd bydd pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yn ddysgwr uchelgeisiol a galluog sy'n gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau, a thrwy blatfformau digidol, drwy'r Gymraeg a'r Saesneg.
- Gall dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg atgyfnerthu'r broses o ddysgu'r Gymraeg a galluogi plant a phobl ifanc i ddatblygu eu hyder i ddefnyddio'r iaith mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau.
- Mae pob ymarferydd ac arweinydd yn datblygu eu sgiliau Cymraeg a hefyd eu dealltwriaeth ehangach o'r Gymraeg yn ei chyd-destun hanesyddol a diwylliannol.
- Mae ymchwil i gaffael iaith, dwyieithrwydd ac addysgu Cymraeg effeithiol yn llywio'r dysgu a'r addysgu.
- Wrth ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg, gall plant a phobl ifanc ddatblygu sylfaen ar gyfer dysgu ieithoedd ychwanegol, yn barod i fod yn ddinasyddion ar gyfer Cymru a'r byd.

Mae addysg cyfrwng Cymraeg yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu hyfedredd yn y Gymraeg, yn ogystal ag yn y Saesneg. Bydd hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg (ar draws y cwricwlwm ac mewn gweithgareddau allgyrsiol) gyda chynnydd ieithyddol wedi'i gynllunio drwy bob cyfnod o addysg o'r blynyddoedd cynnar, yn cynnig cyfleoedd i bob plentyn a pherson ifanc ddod yn ddwyieithog. Er mwyn parhau i gynyddu nifer y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg, rhaid inni sicrhau gweithlu digonol. Mae hyn yn un o nodau allweddol y cynllun hwn.



I gefnogi un o bedwar diben craidd y Cwricwlwm i Gymru, y nod yw sicrhau bod gan bob dysgwr lwybrau priodol ar gyfer dysgu Cymraeg i'w galluogi i ddod yn ddigon hyderus i ddefnyddio'r iaith mewn bywyd bob dydd. Byddant yn cael cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cwricwlwm, y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth ac ar blatfformau digidol fel eu bod yn gwerthfawrogi ei defnyddioldeb i gyfathrebu mewn Cymru ddwyieithog.

Mae'n hanfodol, felly, bod pob ymarferydd ac arweinydd yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i ddatblygu gwerthfawrogiad ein plant a'n pobl ifanc o'r Gymraeg, ei llenyddiaeth a'i hanes, a hefyd ei pherthnasedd i'w bywyd bob dydd yn y Gymru gyfoes ac mewn cyflogaeth yn y dyfodol. Drwy gyflawni'r cynllun hwn, bydd gan ymarferwyr ac arweinwyr fwy o gyfleoedd i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth eu hunain, a rhannu hyn â'u dysgwyr.

Bydd cynllunio'r cwricwlwm ac addysgeg yn cael eu llywio'n fwy gan ymchwil a thystiolaeth am addysgu a dysgu iaith yn effeithiol, gan gynnwys dulliau trochi iaith, a rôl dwyieithrwydd wrth gefnogi aml-lythrennedd a datblygiad ieithyddol a gwybyddol dysgwyr.

## Amcanion a chamau gweithredu allweddol

Mae'r adran hon yn amlinellu'r amcanion a'r camau gweithredu allweddol sy'n perthyn i bob un o 4 nod y cynllun, sef:

- cynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu'r Gymraeg fel pwnc ac addysgu pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg
- cynyddu nifer yr ymarferwyr sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg sy'n cefnogi dysgwyr
- datblygu sgiliau Cymraeg pob ymarferydd a'i arbenigedd i addysgu'r Gymraeg ac i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
- meithrin gallu arweinydd ysgolion cyfrwng Cymraeg a sicrhau bod gan bob arweinydd y sgiliau sydd eu hangen i gynllunio datblygiad y Gymraeg yn strategol o fewn diwylliant o ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu.

### **Nod 1: Cynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu'r Gymraeg fel pwnc ac addysgu pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg**

Yn sicr, nid oes digon o bobl sy'n dewis dod yn athrawon yn y sector cyfrwng Cymraeg. Er bod y darlun yn fwy cadarnhaol mewn addysg gynradd, rydym yn gwybod bod ysgolion uwchradd yn wynebu anawsterau wrth recriwtio athrawon, yn enwedig mewn rhai pynciau megis gwyddoniaeth, mathemateg, Cymraeg a Saesneg. Mae'r daith i fod yn athro yn y sector cyfrwng Cymraeg yn gofyn am gynllunio ar draws y cyfnodau er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn parhau i symud ymlaen a datblygu eu sgiliau Cymraeg a'u hyder i ddefnyddio'r iaith. Mae hyn yn cynnwys sawl rhanddeiliad ac mae'r tabl yn Atodiad 1 yn dangos y daith hon. Mae'r ddogfen dadansoddi data, sy'n cyd-fynd â'r cynllun hwn, yn cynnwys trosolwg o'r sefyllfa gyfredol a'r her wrth i ni weithio tuag at wireddu targedau Cymraeg 2050.

Ar hyn o bryd, targedu graddedigion a'u hannog i astudio ar gyfer statws athro cymwysedig (SAC) yw prif ffocws y gwaith o recriwtio i AGA. Er bod hyn yn bwysig o hyd, bydd yn aml yn rhy hwyr a bydd pobl ifanc eisoes wedi penderfynu pa lwybrau gyrfa yr hoffent eu dilyn. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos athrawon Cymraeg fel pwnc, lle nad oes digon o niferoedd yn dewis astudio Cymraeg ar lefel Safon Uwch, a fydd wedyn yn symud ymlaen i ddewis Cymraeg fel pwnc gradd ac addysgu fel gyrfa. Mae angen inni sicrhau ein bod yn targedu dysgwyr yn gynharach ac yn darparu llwybrau a chymorth iddynt fynd i addysgu.

Ceir rhwystrau canfyddedig eraill sy'n atal pobl rhag ymuno ag AGA, gan gynnwys y gofyniad i ennill gradd B mewn TGAU Mathemateg a Chymraeg neu Saesneg, a diffyg hyder myfyrwyr yn eu sgiliau Cymraeg a pharodwydd i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae AGA wedi cael ei diwygio'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Cafodd rhaglenni AGA newydd eu cyflwyno'n raddol o fis Medi 2019, ac mae'r meini prawf achredu'n ei gwneud yn ofynnol i bartneriaethau fod yn glir ynghylch y gweithgareddau sydd wedi'u cynnwys yn eu rhaglenni ar gyfer datblygu'r Gymraeg. Mae hefyd yn nodi 2 ffordd o fynd i'r afael â'r ystyriaethau hyn:

- Os bydd partneriaethau AGA yn dymuno cynnig AGA i fyfyrwyr sy'n bwriadu gweithio yn y sector ysgolion cyfrwng Cymraeg a'r sector ysgolion dwyieithog, dylai'r canlynol gael eu nodi'n glir:
  - gweithgareddau arfaethedig i feithrin sgiliau addysgegol athrawon dan hyfforddiant i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg (gan gynnwys datblygu arbenigeddau pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg)
  - trefniadau i sicrhau y caiff sgiliau Cymraeg ymarferwyr y dyfodol eu meithrin yn ystod eu AGA er mwyn sicrhau y byddant yn cyrraedd lefel o gymhwysedd y cytunwyd arni cyn cymhwyso i weithio yn y sector.
- Dylai darpariaeth y bartneriaeth sicrhau bod ganddynt gynlluniau clir ar gyfer darpariaeth a all alluogi pob athro dan hyfforddiant i feithrin ei sgiliau Cymraeg. Bydd angen i bartneriaethau nodi sut y byddant yn asesu safonau Cymraeg eu holl athrawon dan hyfforddiant pan fyddant yn dechrau ar eu rhaglenni, a sut y byddant yn bwriadu defnyddio amrywiaeth o fethodolegau i adeiladu ar y sgiliau hynny yn ystod profiad AGA y myfyrwyr.

Rôl y Bwrdd Achredu Addysg Athrawon, wedi'i hwyluso gan CGA, yw achredu a monitro rhaglenni AGA. Mae Estyn yn arolygu darparwyr AGA hefyd. Cynhelir y cylch monitro ac arolygu cyntaf yn ystod blwyddyn academaidd 2021 i 2022.

Mae gwella'r ffordd rydym yn cynllunio ar gyfer nifer yr athrawon y bydd eu hangen a'r bwloch yn y cyflenwad yn allweddol i lywio ein camau gweithredu. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon i ragweld y galw am athrawon newydd gymhwyso yn y dyfodol, yn seiliedig ar amcanestyniadau disgyblion a'r stoc a'r llif o athrawon i mewn ac allan o'r proffesiwn. Defnyddir y Model hwn i lywio targedau derbyn fel y gall CGA ddyrannu rhaglenni AGA Cymru, er mwyn sicrhau bod y nifer angenrheidiol o athrawon newydd gymhwyso yn ymuno â'r proffesiwn bob blwyddyn. Nid yw'r Model yn ystyried pynciau unigol na'r gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, ers mis Medi 2020, mae'n ofynnol i ddarparwyr AGA anelu at sicrhau bod 30% o'r myfyrwyr y byddant yn eu derbyn yn hyfforddi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r data yn Nhabl 1.3 yn y ddogfen dadansoddi data yn dangos bod lle i gynyddu recriwtio er mwyn paratoi 30% o'r myfyrwyr a dderbynnir i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, yn enwedig ar gyfer addysgu uwchradd.

Mae CSCA awdurdodau lleol yn hanfodol i'r broses gynllunio hon. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol baratoi cynlluniau 10 mlynedd ar gyfer y ffordd y byddant yn cynyddu ac yn gwella darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn eu hardaloedd, er mwyn helpu i gyflawni nodau Cymraeg 2050. Rydym yn disgwyl i awdurdodau lleol ddefnyddio'r data o'r Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY), ochr yn ochr â'u cynlluniau i gynyddu nifer y lleoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, i amlinellu sut y bydd y cynnydd yn

effeithio ar eu gofynion staffio dros gyfnod o 10 mlynedd. Caiff y data hyn eu defnyddio ochr yn ochr â'r Model Cynllunio a Chyflenwi Athrawon i lywio'r amcanestyniadau o nifer y myfyrwyr a gaiff eu derbyn ar raglenni AGA. Bydd CSCA newydd yr awdurdodau lleol yn cael eu gweithredu o fis Medi 2022 ochr yn ochr â gweithredu'r cynllun hwn. Mae'r ddogfen 'Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg: crynodeb o gynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg' sy'n cyd-fynd â'r cynllun hwn, yn cynnwys crynodeb byr o anghenion pob awdurdod lleol o ran y gweithlu am y 10 mlynedd nesaf.

Tra byddwn yn canolbwyntio ar nifer yr athrawon dan hyfforddiant sy'n ymuno â'r proffesiwn, rhaid inni hefyd fynd i'r afael â pham mae rhai athrawon yn gadael y proffesiwn. Ymhlith y rhesymau a roddwyd dros adael mae llwyth gwaith, diffyg cefnogaeth i athrawon newydd, diffyg llwybr gyrfa atyniadol, cyflog, a diffyg cyfleoedd i weithio'n hyblyg. Rhoddir sylw i rai o'r materion hyn fel rhan o gynllun ehangach i wella lles athrawon, ac felly nid yw'r cynllun hwn yn mynd i'r afael â nhw yn uniongyrchol.

## Cynnydd hyd yn hyn

Mewn partneriaeth ag amrywiaeth o randdeiliaid, rydym wedi bod yn gweithio ar sawl gweithgaredd i geisio mynd i'r afael â'r prinder athrawon cyfrwng Cymraeg. Ymhlith y datblygiadau allweddol mae:

- cyflwyno Cynllun Cymhelliant Iaith Athrawon Yfory yn 2018 sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n astudio ar raglen AGA ôl-radd uwchradd achrededig ac sy'n eu galluogi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu i addysgu Cymraeg fel pwnc
- achredu rhaglenni AGA newydd i'w cyflwyno mewn partneriaeth ag ysgolion. Mae pob rhaglen AGA newydd bellach yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu'r Gymraeg i bob athro dan hyfforddiant ac yn rhoi cymorth i'r rhai sy'n paratoi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
- (yn dilyn y gwerthusiad o [ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn AGA](#)), datblygu un 'Fframwaith cymwyseddau iaith Gymraeg ymarferwyr addysg' i fesur cymhwysedd ieithyddol ymarferwyr i'w ddefnyddio fel rhan o AGA ac fel rhan o ddysgu proffesiynol gydol gyrfa i ymarferwyr. Caiff y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ei ariannu i wneud trefniadau i gymedroli'r broses o roi'r fframwaith ar waith o fewn AGA
- cyflwyno 2 lwybr newydd i'r proffesiwn addysgu er mwyn galluogi'r rhai sy'n dymuno astudio'n rhan-amser neu newid gyrfa. Mae'r cwrs rhan-amser yn galluogi athrawon dan hyfforddiant i astudio tra byddant yn gweithio neu'n cydbwysu ymrwymadau eraill. Mae'r cwrs Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) cyflogedig yn galluogi athrawon dan hyfforddiant i weithio fel athrawon heb gymhwyso ac astudio ar gyfer cymhwyster TAR ar yr un pryd
- CGA yn sefydlu gwefan Addysgwyr Cymru ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'n darparu gwybodaeth gynhwysfawr am ddod yn athro yng Nghymru. Caiff ei hategu gan ymgyrch Addysgu Cymru i ddenu mwy o ddarpar athrawon, gan gynnwys y rhai sy'n dymuno addysgu Cymraeg fel pwnc a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.

- CGA yn sefydlu tîm cynghori/eiriolaeth, ar ran Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr am ddod yn athro yng Nghymru, Mae staff yn mynychu ffeiriau gyrfaeodd, ffeiriau swyddi, ysgolion a phrifysgolion i hyrwyddo gyrfaeodd mewn addysgu. Mae'r tîm cynghori/eiriolaeth yn darparu gwasanaethau cymorth ar gyfer ymgeisio a chyfweliadau. Mae gwaith wedi'i dargedu wedi dechrau i ddenu darpar athrawon cyfrwng Cymraeg
- sefydlu grŵp rhanddeiliaid gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, prifysgolion, consortia ac eraill i gymryd camau er mwyn cynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio Cymraeg ar lefel Safon Uwch. Ymhlith y gweithgareddau hyd yma mae ariannu ysgolion a cholegau i gynnig cyfleoedd cyfoethogi i ddysgwyr a helpu i dalu costau staff os bydd nifer y dysgwyr yn fach, a chynnal ymgyrch sy'n targedu pobl ifanc 15 ac 16 oed i'w hannog i ddewis Cymraeg fel pwnc Safon Uwch
- cynnal rhaglen beilot er mwyn helpu athrawon cynradd cyfrwng Cymraeg i gael hyfforddiant a chymorth er mwyn newid i addysgu yn y sector uwchradd. Hyd yma, mae 24 o athrawon ledled Cymru wedi bod yn rhan o'r rhaglen beilot.
- cyflwyno'r CBGY fel bod modd dadansoddi data ar y gweithlu yn well er mwyn gallu llywio gwaith cynllunio'r gweithlu yn y dyfodol
- ei gwneud yn ofynnol i bartneriaethau AGA weithio tuag at sicrhau bod 30% o'r myfyrwyr a dderbynnir yn paratoi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
- newid y cyfnod cynllunio ar gyfer CSCA o dair blynedd i 10 mlynedd er mwyn rhoi syniad gwell a chynharach inni o'r hyn a fydd yn ofynnol o ran athrawon cyfrwng Cymraeg. Bydd hyn yn ein galluogi i bennu targedau realistig yn seiliedig ar y gofynion gwirioneddol
- datblygu model e-sgol fel ffordd o sicrhau y caiff dysgwyr mewn ysgolion gwledig a bach gynnig cwricwlwm eang ar lefel TGAU a Safon Uwch. Mae'r model hwn wedi galluogi dysgwyr o wahanol ysgolion i fanteisio ar gyfleoedd addysgu yn electronig mewn gwersi 'byw' gan athrawon cymwysedig a phrofiadol. Er nad yw'r model yn cynyddu nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg, mae'n sicrhau bod cynnig cwricwlaidd eang ar gael i ddysgwyr drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Ein hamcanion dros y 10 mlynedd nesaf

### Amcan 1.1: Gwella'r defnydd o ddata i lywio'r gwaith o gynllunio ar gyfer cynyddu nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg

Camau gweithredu	Cyfrifoldeb	Pryd
1. Dadansoddi CSCA awdurdodau lleol a gweithio gyda nhw er mwyn gwella dadansoddi data ar lefel leol.	1. Awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru	1. Bob blwyddyn
2. Sicrhau y caiff y CBGY ei gwblhau bob blwyddyn a'i fod yn adlewyrchiad cyfredol o sgiliau'r gweithlu.	2. Ysgolion, awdurdodau lleol	2. Fis Tachwedd bob blwyddyn
3. Dadansoddi'r holl ffynonellau data yn rheolaidd er mwyn deall tueddiadau yn y galw am athrawon cyfrwng Cymraeg.	3. Llywodraeth Cymru, CGA	3. Bob 2 flynedd
4. Adolygu'r targedau ar gyfer nifer y myfyrwyr a dderbynnir i raglenni AGA ar gyfer 2023 a'u diwygio i adlewyrchu'r amcanestyniadau o ran y galw am athrawon cyfrwng Cymraeg, fel y'i amlinellir yn y dogfennau dadansoddiad data a chrynodeb o CSCA.	4. Llywodraeth Cymru, CGA	4. Rhagfyr 2022
5. Adolygu'r broses o greu amcanestyniadau o ran y stoc o athrawon y bydd ei hangen yn y tymor hirach er mwyn ystyried:	5. Llywodraeth Cymru	5. Rhagfyr 2023

Camau gweithredu	Cyfrifoldeb	Pryd
<ul style="list-style-type: none"> <li>• amcanestyniadau disgyblion</li> <li>• cynlluniau awdurdodau lleol i gynyddu darpariaeth gyfrwng Cymraeg</li> <li>• cymarebau disgybl:athro</li> <li>• proffiliau oedran athrawon</li> <li>• rolau athrawon</li> </ul> a gweithredu proses ddiwygiedig ar gyfer 2024 ymlaen.		

**Amcan 1.2: Cynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio Cymraeg a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel Safon Uwch ac fel israddedigion er mwyn sicrhau bod digon o athrawon ar gael ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol**

Camau gweithredu	Cyfrifoldeb	Erbyn pryd
1. Adolygu'r cyllid ychwanegol ar gyfer y Gymraeg a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel Safon Uwch er mwyn sicrhau y gall ysgolion eu cynnig i grwpiau bach o ddysgwyr.	1. Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol	1. Erbyn blwyddyn academiaidd 2023 i 2024
2. Sicrhau bod llwybrau i barhau i astudio'r Gymraeg fel pwnc ar gael yn eang fel rhan o'r prospectws ôl-16 lleol.	2. Awdurdodau lleol, ysgolion	2. Bob blwyddyn
3. Darparu rhaglen fentora er mwyn ymgysylltu â dysgwyr ym	3. Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, adrannau Cymraeg prifysgolion	3. O fis Medi 2022

Camau gweithredu	Cyfrifoldeb	Erbyn pryd
Mlynyddoedd 9 i 11 ynglŷn â manteision parhau i astudio Cymraeg ar lefel Safon Uwch a chynnig cyfleoedd i ddysgwyr baratoi i astudio Cymraeg mewn addysg uwch.		
4. Parhau i ddarparu cyfleoedd cyfoethogi i ddysgwyr sy'n astudio Cymraeg ar lefel Safon Uwch.	4. Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, adrannau Cymraeg prifysgolion, ysgolion	4. Bob blwyddyn
5. Cynyddu darpariaeth e-sgol fel ffordd o alluogi dysgwyr i fanteisio at gwricwlwm ehangach drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel TGAU a Safon Uwch.	5. Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, ysgolion	5. Ehangu i bob ardal consortiwm o fis Medi 2023
6. Cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n astudio'r Gymraeg a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel israddedig.	6. Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, prifysgolion	6. Bob blwyddyn
7. Gweithio'n agos gydag ysgolion, dysgwyr ac israddedigion i hyrwyddo llwybrau at addysgu.	7. CGA, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, partneriaethau AGA	7. Parhaus



### Amcan 1.3: Datblygu llwybrau o addysg a hyfforddiant ôl-16 at addysgu

Camau gweithredu	Cyfrifoldeb	Erbyn pryd
1. Cynnal gwaith cwmpasu i edrych ar ddatblygu llwybr prentisiaethau neu gymwysterau galwedigaethol i ddysgwyr mewn addysg a hyfforddiant ôl-16 fel llwybr at addysgu.	1. Llywodraeth Cymru, CGA, Cymwysterau Cymru	1. Y gwaith cwmpasu i'w gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2022
2. Ehangu'r ddarpariaeth AGA israddedig gyda SAC i gynnwys rhaglen israddedig 3 blynedd gyda SAC fel ffordd o symud ymlaen i addysgu uwchradd yn unol â meini prawf achredu AGA.	2. Llywodraeth Cymru, CGA, ysgolion a phrifysgolion	2. I'w ddarparu o fis Medi 2024
3. Ehangu'r llwybrau sy'n seiliedig ar gyflogaeth i addysgu uwchradd sydd ar gael drwy'r Brifysgol Agored i ddarparu amrywiaeth ehangach o ddewisiadau o ran pynciau.	3. Llywodraeth Cymru, y Brifysgol Agored	3. O fis Medi 2023
4. Cynnig modiwlau i israddedigion gael profiad o fod mewn ystafell ddosbarth a pharatoi ar gyfer AGA.	4. Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, prifysgolion	4. O fis Medi 2022
5. Treialu ysgoloriaeth ariannol a mentora i ddysgwyr israddedig i'w cefnogi i baratoi ar gyfer AGA drwy	5. Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol	5. O fis Medi 2022

Camau gweithredu	Cyfrifoldeb	Erbyn pryd
gyfrwng y Gymraeg, i gynnwys dysgwyr sy'n astudio yn Lloegr.		

#### Amcan 1.4: Dileu rhwystrau rhag mynediad at addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Camau gweithredu	Cyfrifoldeb	Pryd
1. Adolygu'r gofynion TGAU neu gyfatebol ar gyfer mynediad i AGA.	1. Llywodraeth Cymru	1. Erbyn mis Medi 2023
2. Darparu cyfleoedd i israddedigion ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg a magu hyder i ddefnyddio'r iaith er mwyn symud ymlaen i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	2. Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol	2. O fis Medi 2022
3. Parhau i gynnig cymhellion ariannol iaith Athrawon Yfory ar gyfer y rhai sy'n hyfforddi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion uwchradd ac ystyried yr angen am gymhelliant i'r rhai sy'n hyfforddi i addysgu mewn ysgolion cynradd wrth i'r galw am athrawon gynyddu.	3. Llywodraeth Cymru	3. Parhaus
4. Datblygu rhwydweithiau i ymgysylltu â graddedigion sy'n siarad Cymraeg sy'n astudio yn Lloegr a hyrwyddo	4. Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, prifysgolion	4. O fis Medi 2022

Camau gweithredu	Cyfrifoldeb	Pryd
cyfleoedd iddynt ddychwelyd i Gymru i baratoi i addysgu.		
5. Yn unol â'r <a href="#">Cynllun Recriwtio Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ar gyfer Addysg Gychwynnol i Athrawon</a> , gefnogi'r cynnydd yn nifer yr athrawon cyfrwng Cymraeg o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.	5. Llywodraeth Cymru, partneriaethau AGA	5. Bob blwyddyn

#### Amcan 1.5: Cryfhau'r ddarpariaeth AGA drwy gyfrwng y Gymraeg

Camau gweithredu	Cyfrifoldeb	Pryd
<p>1. Adolygu'r meini prawf achredu ar gyfer AGA er mwyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>cynnwys diffiniad clir ar gyfer y gofyniad sylfaenol am ddarpariaeth AGA cyfrwng Cymraeg</li> <li>ei gwneud yn ofynnol i bartneriaethau AGA ddatblygu a gweithredu cynlluniau strategol ar gyfer datblygu a chynyddu AGA cyfrwng Cymraeg</li> </ul> <p>ffurfioli'r gofynion ar gyfer gweithredu a chymedroli 'Fframwaith cymwyseddau iaith Gymraeg ymarferwyr addysg'.</p>	1. Llywodraeth Cymru, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, CGA, partneriaethau AGA	1. I'w weithredu o 2023

Camau gweithredu	Cyfrifoldeb	Pryd
2. Cefnogi partneriaethau AGA i ddatblygu a rhannu adnoddau i gefnogi myfyrwyr cyfrwng Cymraeg.	2. Llywodraeth Cymru, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, CGA	2. O fis Medi 2022
3. Cynnal adolygiad thematig i bennu pa mor dda y mae sefydliadau AGA yn cefnogi athrawon dan hyfforddiant i wella eu sgiliau Cymraeg, gan gynnwys addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	3. Estyn	3. Yn ystod 2022 i 2023

#### Amcan 1.6: Gwella'r cymorth sydd ar gael yn ystod AGA i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Camau gweithredu	Cyfrifoldeb	Pryd
1. Darparu un lleoliad mewn ysgol cyfrwng Cymraeg i bob myfyriwr sy'n siarad Cymraeg.	1. Partneriaethau AGA	1. O fis Medi 2022
2. Annog a chefnogi myfyrwyr AGA i ddatblygu arbenigedd mewn ail bwnc ar gyfer addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn seiliedig ar eu pynciau Safon Uwch a/neu bynciau gradd israddedig.	2. Partneriaethau AGA	2. O fis Medi 2023
3. Parhau i gefnogi rhwydwaith o fentoriaid mewn ysgolion cyfrwng	3. Partneriaethau AGA	3. Bob blwyddyn

Camau gweithredu	Cyfrifoldeb	Pryd
Cymraeg i ddarparu cymorth iaith i fyfyrwyr AGA ar leoliadau.		
4. Darparu rhaglen o gyrsiau Cymraeg i fyfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau iaith yn y Gymraeg yn unol â 'Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynol athrawon yng Nghymru' a 'Fframwaith cymwyseddau iaith Gymraeg ymarferwyr addysg'.	4. Partneriaethau AGA, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol	4. O fis Medi 2022

#### Amcan 1.7: Gwella nifer yr athrawon sy'n aros yn y sector cyfrwng Cymraeg

Camau gweithredu	Cyfrifoldeb	Pryd
1. Gofyn i Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru ystyried yr angen i sicrhau bod nifer digonol o ymarferwyr cyfrwng Cymraeg yn cael eu recriwtio a'u cadw fel rhan o'i adolygiad strategol o gyflogau, telerau ac amodau athrawon yng Nghymru.	1. Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru	1. Yn ystod 2022 i 2023
2. Treialu cynllun bwrsariaeth i gadw athrawon yn y sector uwchradd cyfrwng Cymraeg.	2. Llywodraeth Cymru	2. O fis Medi 2023
3. Parhau i ddatblygu ac ariannu'r cynllun pontio er mwyn ei gwneud yn	3. Llywodraeth Cymru, ysgolion, partneriaethau AGA	3. Bob blwyddyn

Camau gweithredu	Cyfrifoldeb	Pryd
bosibl i athrawon a hyfforddwyd i addysgu mewn lleoliadau cynradd newid i addysgu mewn lleoliadau uwchradd er mwyn cadw athrawon a chynyddu nifer y rhai sy'n gallu addysgu yn y sector uwchradd.		
4. Treialu rhaglen i alluogi athrawon sydd wedi bod allan o'r proffesiwn ers dros 5 mlynedd i ddychwelyd i addysgu cyfrwng Cymraeg.	4. Llywodraeth Cymru, ysgolion, partneriaethau AGA	4. O fis Medi 2022

**Amcan 1.8: Parhau i gynnal rhaglen o ymgyrchoedd cyfathrebu a marchnata i hyrwyddo addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg**

Camau gweithredu	Cyfrifoldeb	Pryd
<p>1. Gweithredu strategaeth farchnata 3 blynedd i hyrwyddo gyrfaoedd addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg i gynnwys o leiaf:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• datblygiad parhaus gwefan Addysgwyr Cymru</li> <li>• darparu gwasanaeth cynghori/eiriolaeth gyda'r nod o hyrwyddo gyrfaoedd mewn addysgu</li> <li>• cyflwyno ymgyrch 'Addysgu Cymru' i recriwtio myfyrwyr i AGA</li> </ul>	1. Llywodraeth Cymru, CGA, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol	1. Parhaus yn seiliedig ar dystiolaeth o effeithiolrwydd y gweithgarwch

Camau gweithredu	Cyfrifoldeb	Pryd
<ul style="list-style-type: none"><li>ymgyrch gyfathrebu i gynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio Safon Uwch Cymraeg.</li></ul>		

## **Nod 2: Cynyddu nifer yr ymarferwyr sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg sy'n cefnogi dysgwyr**

Os ydym am gynyddu nifer y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg a chyflwyno Cwricwlwm i Gymru yn llwyddiannus, yn ogystal â chynyddu nifer yr athrawon, mae angen i ni hefyd sicrhau cyflenwad digonol o ymarferwyr sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg i gefnogi dysgwyr. Mae ysgolion yn ddibynnol iawn ar y gweithlu hwn i weithio gyda grwpiau llai o ddysgwyr a chefnogi'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), er enghraifft. Ochr yn ochr â'r cynllun hwn ar gyfer gweithlu ysgolion, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried sut y byddwn yn ehangu'r ddarpariaeth gofal plant yn y Gymraeg. Nid yw'r camau gweithredu sy'n gysylltiedig â'r gweithlu hwnnw wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn, felly.

Mater i bob awdurdod lleol yw recriwtio cynorthwywyr addysgu ac mae cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gael i'w cefnogi pan fyddant yn eu swydd. Mae amrywiaeth o gyrsiau ôl-16 oed ar gael hefyd sy'n gallu paratoi unigolion i weithio fel cynorthwywyr addysgu. Mae natur y cyrsiau hyn ac i ba raddau y maent ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg yn amrywio ledled Cymru. Mae'r data yn nhabl 2.1 o'r ddogfen ddadansoddiad data yn dangos bod gennym broblem benodol o ran cynorthwywyr addysgu, ac mae'r niferoedd yn awgrymu nad oes gennym gyflenwad digonol o weithwyr ar hyn o bryd sydd â sgiliau Cymraeg i lenwi rolau mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, heb sôn am ddigon i allu cefnogi cyflwyno'r cwricwlwm newydd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Yn y sector uwchradd, mae'r data yn awgrymu bod bron i bob siaradwr Cymraeg yn cael eu cyflogi mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, gan awgrymu mai ychydig iawn o gapasiti Cymraeg sydd ymhlith cynorthwywyr addysgu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw cyflog ac amodau holl staff cymorth ysgolion, gan gynnwys cynorthwywyr addysgu. Yn gyffredinol, byddant yr un fath â thelerau holl staff eraill yr awdurdod lleol. Caiff y rhain eu negodi yn uniongyrchol rhwng undebau ac awdurdodau lleol yng Nghymru, ac ar sail Cymru gyfan a Lloegr drwy gytundeb, drwy'r Cyd-gyngor Cenedlaethol. Efallai y bydd gan awdurdodau lleol unigol gonfensiynau gwahanol hefyd i adlewyrchu ystyriaethau lleol, a gall hyn arwain at amrywiadau mewn cyflog ac amodau rhwng awdurdodau ar gyfer yr hyn sy'n ymddangos fel yr un swydd. Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw awdurdod i ymyrryd yn yr adolygiadau a gynhelir gan awdurdodau lleol. Yr awdurdod lleol, fel cyflogwr ei staff ei hun, sy'n gyfrifol am y penderfyniadau y mae'n eu gwneud ynghylch telerau ac amodau cyflogaeth. Nid yw'r cynllun hwn yn cynnwys camau gweithredu ar gyflog ac amodau cynorthwywyr addysgu, felly.

Yn unol â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau darpariaeth yn y Gymraeg lle bo angen ac, wrth adolygu cynlluniau datblygu unigol, i ystyried digonolrwydd y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn y Gymraeg. Wrth gyflawni ei swyddogaethau yn hyn o beth, rhaid i'r awdurdod lleol ystyried digonolrwydd y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a gynigir drwy'r Gymraeg, gan gynnwys maint a gallu'r gweithlu sydd ar gael. Mae hyn yn cynnwys ystyried y gweithlu cyfrwng Cymraeg. Mae CSCA yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol nodi sut



y byddant yn gwella'r ddarpariaeth Gymraeg i bobl ag anghenion dysgu ychwanegol ac wrth gynllunio'r gweithlu o fewn y sector anghenion dysgu ychwanegol. Mae cynlluniau'r awdurdodau lleol yn amrywio, ac nid oes darlun cenedlaethol clir o'r gofynion o ran gweithlu.

## Y cynnydd hyd yn hyn

Mewn partneriaeth ag amrywiaeth o randdeiliaid, rydym wedi bod yn gweithio ar nifer o weithgareddau, gan gynnwys:

- cyflwyno cwrs Cymraeg i gynorthwyr dosbarth fel rhan o'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg
- datblygu Llwybr Dysgu cenedlaethol i gynorthwyr addysgu sy'n cynnwys opsiwn asesu ar gyfer statws Cynorthwydd Addysgu Lefel Uwch (CALU) yn y Gymraeg a'r Saesneg
- sefydlu Grŵp Llywio Dysgu Proffesiynol i ystyried yr hyn sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer cynorthwyr addysgu, mynediad at ddysgu proffesiynol, a bylchau yn y ddarpariaeth. Mae'r grŵp llywio hefyd yn datblygu cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer arweinwyr a llywodraethwyr ar ddefnyddio cynorthwyr addysgu
- gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLIC) i ystyried set safonol o ddisgrifiadau swydd ac i gynnal prosiect ymchwil cymharol i'r ffordd y defnyddir cynorthwyr addysgu mewn systemau addysg eraill, fel sail i ddatblygiadau yn y dyfodol
- ariannu 10 lle yn flynyddol ar raglen Doethuriaeth mewn Seicoleg Addysg Prifysgol Caerdydd, gydag o leiaf 1 lle i'r rhai sy'n gallu symud ymlaen i weithio yn y Gymraeg ar ôl graddio
- datblygu rhaglen dysgu proffesiynol ddwyieithog genedlaethol ar gyfer ADY, a llwybr ADY ar gyfer y rhaglen Gradd Meistr mewn Addysg sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

## Ein hamcanion dros y 10 mlynedd nesaf

### Amcan 2.1: Datblygu a hyrwyddo llwybrau i fynd yn gynorthwydd addysgu

Camau gweithredu	Cyfrifoldeb	Pryd
1. Ystyried gofynion mynediad ar gyfer y rhai sy'n dymuno dod yn gynorthwyr addysgu yn y dyfodol.	1. Llywodraeth Cymru, Grŵp Gorchwyl a Gorffen CLILC, CGA	1. Erbyn mis Medi 2023

Camau gweithredu	Cyfrifoldeb	Pryd
2. Darparu cyfleoedd i ddysgwyr gael profiad gwaith mewn ysgolion fel cynorthwyr addysgu.	2. Ysgolion, colegau addysg bellach, Gyrfa Cymru	2. Bob blwyddyn
<p>3. Adolygu'r ddarpariaeth a'r cymwysterau presennol ar gyfer y rhai sydd am ddod yn gynorthwyr addysgu a:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gweithio gyda darparwyr i gynyddu'r ddarpariaeth o gyrsiau cyfrwng Cymraeg</li> <li>• sicrhau bod cyrsiau yn cynnwys modiwlau ar gyfer datblygu'r sgiliau a'r ymarfer sydd eu hangen er mwyn addysgu mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog</li> <li>• sicrhau bod cyrsiau yn cynnwys modiwlau ar gyfer datblygu sgiliau Cymraeg dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg</li> <li>• pennu cwrpas y gwaith o ddatblygu llwybr prentisiaeth cynorthwydd addysgu neu ddarpariaeth ar sail cyflogaeth</li> <li>• sicrhau bod darpariaeth hyblyg ar gael i'r rhai sy'n dymuno astudio'n rhan-amser.</li> </ul>	3. Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, prifysgolion, colegau Addysg Bellach, Cymwysterau Cymru, cyrff dyfarnu, CGA	3. O fis Medi 2022
4. Ystyried contractau cyflogaeth ar y cyd ar gyfer lleoliadau gofal plant ac	4. CLILC, awdurdodau lleol, ysgolion, Mudiad Meithrin	4. O fis Medi 2023

Camau gweithredu	Cyfrifoldeb	Pryd
ysgolion cyfrwng Cymraeg i ddarparu rolau llawn-amser i gynorthwywyr addysgu.		
5. Treialu rhaglen sy'n darparu lleoliadau blwyddyn i ddysgwyr sy'n gadael yr ysgol i fod yn gynorthwywyr addysgu mewn lleoliad cyfrwng Cymraeg cyn symud ymlaen i brifysgol neu gyflogaeth. Ystyried opsiynau ar gyfer ehangu ar sail y peilot.	5. Llywodraeth Cymru, y Gwasanaeth Cyflawni Addysg	5. O fis Medi 2022
6. Hyrwyddo cyfleoedd i unigolion ddod yn gynorthwywyr addysgu gan ganolbwyntio ar y galw yn y sector cyfrwng Cymraeg, a thargedu ystod eang o gynulleidfaoedd gan gynnwys pobl ifanc, rhieni a gofalwyr a phobl sy'n newid gyrfu.	6. Awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, CGA, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, colegau addysg bellach	6. Bob blwyddyn

#### Amcan 2.2: Darparu rhaglen well o ddysgu proffesiynol ar gyfer cynorthwywyr addysgu

Camau gweithredu	Cyfrifoldeb	Pryd
1. O fewn y llwybr dysgu diwygiedig i gynorthwywyr addysgu: <ul style="list-style-type: none"> <li>datblygu cyfleoedd dysgu proffesiynol penodol ar gyfer cynorthwywyr addysgu sy'n</li> </ul>	1. Llywodraeth Cymru, Grŵp Llywio Dysgu Proffesiynol ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu, gweithgor Llwybr Dysgu cynorthwywyr addysgu,	1. O fis Medi 2022

Camau gweithredu	Cyfrifoldeb	Pryd
<p>gweithio mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, er enghraifft ar dechnegau trochi ieithyddol a sut mae plant yn datblygu sgiliau iaith</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• datblygu a darparu cymorth coetsio a mentora ar gyfer cynorthwywyr addysgu cyfrwng Cymraeg</li> <li>• datblygu cyfleoedd dysgu proffesiynol penodol ar gyfer pob cynorthwydd addysgu ar ymwybyddiaeth o iaith a defnydd o iaith.</li> </ul>	<p>consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol</p>	
<p>2. Parhau i ddarparu cyrsiau iaith sy'n targedu cynorthwywyr addysgu drwy'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol er mwyn gwella sgiliau a chynyddu hyder (gweler Nod 3).</p>	<p>2. Darparwyr y Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol</p>	<p>2. Bob blwyddyn</p>
<p>3. Datblygu a defnyddio rhwydwaith Trafod Addysgeg newydd ar gyfer cynorthwywyr addysgu, er mwyn iddyn nhw eu hunain yn ogystal ag ysgolion gael rhannu gwybodaeth ac arferion yn y maes hwn â'i gilydd.</p>	<p>3. Llywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, CYDAG</p>	<p>3. O fis Medi 2022</p>
<p>4. Darparu rôl benodol i gynorthwywyr addysgu i gefnogi'r gwaith o</p>	<p>4. Ysgolion</p>	<p>4. O fis Medi 2022</p>

Camau gweithredu	Cyfrifoldeb	Pryd
weithredu Siarter Iaith a Cymraeg Campus mewn ysgolion.		

**Amcan 2.3: Datblygu gallu ac arbenigedd i gefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cyfrwng Cymraeg**

Camau gweithredu	Cyfrifoldeb	Pryd
<p>1. Sefydlu is-grŵp i'r Rhwydwaith ADY Cenedlaethol er mwyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• datblygu dull gweithredu cenedlaethol i ddeall sgiliau'r gweithlu er mwyn cefnogi dysgwyr ag ADY mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog prif-ffrwd</li> <li>• adolygu'r ddarpariaeth dysgu proffesiynol ac academaidd bresennol i helpu ymarferwyr i ddatblygu arbenigedd o safbwynt cefnogi dysgwyr ag ADY mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog prif-ffrwd</li> <li>• cynnal archwiliad o adnoddau dysgu ADY Cymraeg</li> <li>• nodi'r ddarpariaeth a'r adnoddau sydd eu hangen i ddarparu cymorth effeithlon i ddysgwyr ag ADY ar draws y sectorau</li> </ul>	<p>1. Llywodraeth Cymru, Rhwydwaith ADY Cenedlaethol, consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol</p>	<p>1. O fis Medi 2022</p>

Camau gweithredu	Cyfrifoldeb	Pryd
<p>blynyddoedd cynnar, cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cynyddu capasiti gwasanaethau ADY, Cynhwysiant a Seicoleg Addysg, drwy hyfforddiant a recriwtio uniongyrchol.</li> </ul>		
<p>2. Ariannu arweinydd gweithredu cenedlaethol i roi cyngor, cefnogaeth a her i'r sector ar eu cyfrifoldebau o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) mewn perthynas â'r Gymraeg.</p>	<p>2. Llywodraeth Cymru</p>	<p>2. Ebrill 2022</p>
<p>3. Hyrwyddo'r rhaglen ddysgu proffesiynol ADY a llwybr ADY y MA (Gradd Meistr) Cenedlaethol mewn Addysg (Cymru) fel ffordd o ddatblygu sgiliau'r gweithlu o ran cefnogi dysgwyr ag ADY mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.</p>	<p>3. Llywodraeth Cymru, prifysgolion</p>	<p>3. Bob blwyddyn</p>
<p>4. Mynd ati i gynllunio'n strategol o ran y gweithlu yn unol â chynlluniau lleol i gynyddu nifer y lleoliadau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog arbenigol i gefnogi dysgwyr ag ADY.</p>	<p>4. Awdurdodau lleol</p>	<p>4. Bob blwyddyn</p>

### **Nod 3: Datblygu sgiliau Cymraeg pob ymarferydd a'i arbenigedd i addysgu'r Gymraeg ac i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg**

Ein gweledigaeth yw galluogi pob dysgwr i ddatblygu ei sgiliau Cymraeg a defnyddio'r iaith yn hyderus yn ei fywyd bob dydd. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon, rhaid i ni sicrhau bod pob dysgwr yn dilyn cwricwlwm o'r radd flaenaf sy'n rhoi mwy o bwyslais ar wella sgiliau Cymraeg dysgwyr a'u defnydd o'r iaith. Fodd bynnag, ni ellir cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru heb weithlu addysg uchelgeisiol sy'n cael cefnogaeth dda.

Er mwyn cyflwyno Cymraeg yn llwyddiannus yn y Cwricwlwm i Gymru, bydd angen i ysgolion fod ag ymarferwyr sydd â sgiliau Cymraeg ac sy'n gallu addysgu Cymraeg fel iaith ac ym mhob rhan o'r cwricwlwm. Un o brif egwyddorion y cynllun hwn yw ein bod am i bob ymarferydd ac arweinydd ymroi i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a hefyd eu dealltwriaeth ehangach o'r Gymraeg yn ei chyd-destun hanesyddol a diwylliannol. Mae hyn yn gydnaws â'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth ac ar gyfer cynorthwyo addysgu – y safonau proffesiynol sy'n nodi'r disgwyliad i ymarferwyr ddatblygu eu gwybodaeth a'u defnydd o'r Gymraeg drwy gydol eu gyrfaoedd, yn ogystal ag ymestyn sgiliau a chymhwysedd dysgwyr o ran y Gymraeg. Fel yr amlinellir yn y ddogfen ddadansoddi data, mae'r CBGY yn darparu data blynyddol ar allu ymarferwyr sy'n gweithio mewn ysgolion yng Nghymru yn y Gymraeg yn seiliedig ar 'Fframwaith cymwyseddau iaith Gymraeg ymarferwyr addysg', a bydd yn ein galluogi i fonitro cynnydd graddol o ran nifer yr ymarferwyr sydd â sgiliau Cymraeg lefel uwch.

Mae'r model 'Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu' yn rhoi fframwaith i ysgolion ei ddefnyddio er mwyn sicrhau cyfleoedd dysgu proffesiynol i ymarferwyr. Fel sefydliadau sy'n dysgu, dylai ysgolion feithrin eu holl staff a gwneud yn siŵr eu bod yn datblygu. Dylai'r weledigaeth ar gyfer y Gymraeg a chaffael yr iaith Gymraeg fod yn glir i bawb, a dylid annog cyfleoedd ar gyfer dysgu proffesiynol a datblygu sgiliau iaith ar y cyd.

Mae amrywiaeth o ddarpariaeth genedlaethol, ranbarthol a lleol ar gael er mwyn galluogi ymarferwyr i feithrin eu sgiliau Cymraeg, a hynny ar amrywiaeth o lefelau ac yn unol â'r 'Fframwaith cymwyseddau iaith Gymraeg ymarferwyr addysg', a thrwy wahanol fodelau cyflawni.

Mae'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg wedi bod ar waith ers 2006. I ddechrau, roedd y ffocws ar wella sgiliau ymarferwyr a oedd â rhywfaint o allu yn y Gymraeg er mwyn rhoi'r hyder iddynt allu addysgu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Ers 2010, mae'r ffocws wedi ehangu i gynnwys meithrin sgiliau ymarferwyr yn y sector cyfrwng Saesneg drwy amrywiaeth o gyrsiau. Cynhaliwyd gwerthusiad o'r Cynllun yn 2020 a chyhoeddwyd yr adroddiad arno ym mis Mawrth 2021. Daeth y gwerthusiad i'r casgliad bod y

Cynllun Sabothol yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at feithrin sgiliau Cymraeg ymarferwyr, a bod angen y Cynllun o hyd. Roedd yr adroddiad yn cynnwys nifer o argymhellion y byddwn yn mynd i'r afael â nhw gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid er mwyn sicrhau y gall y Cynllun Sabothol iaith Gymraeg barhau i gael effaith ar dysgu'r Gymraeg ac addysgu'r Gymraeg ac ar dysgu ac addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ochr yn ochr â'r Cynllun Sabothol iaith Gymraeg, caiff amrywiaeth o gyfleoedd dysgu proffesiynol eraill ar gyfer meithrin sgiliau Cymraeg ymarferwyr eu cynnig gan gonsortia rhanbarthol, awdurdodau lleol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae'r tabl yn Atodiad 2 yn dangos y ddarpariaeth sydd ar gael.

Yn ogystal â datblygu sgiliau Cymraeg ymarferwyr, mae angen i ni hefyd ddatblygu arbenigedd ymarferwyr sy'n gweithio mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn barhaus. Mae consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn darparu rhywfaint o gymorth yn y maes hwn. Yn ogystal, mae ysgolion wedi datblygu eu rhwydweithiau a'u cyfleoedd dysgu proffesiynol eu hunain drwy CYDAG.

### **Y cynnydd hyd yn hyn**

- Rydym wedi ehangu'r Cynllun Sabothol iaith Gymraeg i gynnig cyfleoedd i ymarferwyr ledled Cymru gael hyfforddiant Cymraeg dwys. Ymhlith y rhain mae cwrs Cymraeg mewn Blwyddyn, cyrsiau ar 4 lefel wahanol yn ogystal â chyrsiau sy'n targedu carfanau penodol o ymarferwyr.
- Rydym yn gweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i greu cyrsiau ar-lein lefel mynediad, lefel sylfaen a gloywi iaith i ymarferwyr feithrin eu sgiliau Cymraeg.
- Er mwyn helpu i roi'r safonau proffesiynol ar waith, rydym wedi datblygu un 'Fframwaith cymwyseddau iaith Gymraeg ymarferwyr addysg'. Mae'r fframwaith yn rhan o'r Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP) ac mae'n galluogi ymarferwyr addysg i nodi eu cynnydd o ran meithrin eu sgiliau Cymraeg yn ystod AGA a thrwy gydol eu gyrfaoedd.
- Rydym wedi cyflwyno'r CBGY ac mae gennym bellach 2 flynedd o ddata ar sgiliau Cymraeg y gweithlu addysg a faint ohonynt sy'n addysgu'r iaith neu drwy gyfrwng yr iaith mewn ysgolion.
- Rydym wedi rhoi cyllid i gonsortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol i roi amrywiaeth o gymorth i ymarferwyr i'w helpu i addysgu'r Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg.
- Rydym wedi darparu cyllid i CYDAG i ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol cyfrwng Cymraeg.



## Ein hamcanion dros y 10 mlynedd nesaf

Amcan 3.1: Parhau i ddatblygu ein dealltwriaeth o sgiliau Cymraeg y gweithlu er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio cyfleoedd dysgu proffesiynol

Camau gweithredu	Cyfrifoldeb	Pryd
1. Dadansoddi data'r CBGY a CGA, a gweithio gyda chonsortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol i ddatblygu cynlluniau lleol ar gyfer darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol Cymraeg	1. Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, CGA	1. Bob blwyddyn
2. Yn seiliedig ar y dadansoddiad o'r data, ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol bennu targedau ar gyfer cynyddu cyfran eu gweithlu sydd â sgiliau iaith ar lefel sylfaen, ac ar lefel ganolradd neu uwch, ac adrodd ar y rhain fel rhan o'r gwaith monitro blynyddol o ran eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.	2. Awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol	2. Bob blwyddyn

**Amcan 3.2: Darparu rhaglen genedlaethol o gyfleoedd dysgu proffesiynol er mwyn galluogi pob ymarferydd, gan gynnwys athrawon cyflenwi a chynorthwywyr addysgu, i feithrin eu sgiliau Cymraeg yn barhaus yn unol â'r disgwyliad yn y safonau proffesiynol**

Camau gweithredu	Cyfrifoldeb	Pryd
1. Gweithredu rhaglen genedlaethol o gyrsiau Cymraeg am ddim ar gyfer pob myfyriwr ac ymarferydd AGA yn unol â'r 'Fframwaith cymwyseddau iaith Gymraeg ymarferwyr addysg', gan nodi amcanion ieithyddol penodol.	1. Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, darparwyr Cynllun Sabothol y Gymraeg, consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, partneriaethau AGA	1. O fis Medi 2022
2. Datblygu modelau darparu hyblyg gan gynnwys cyrsiau dwys, dysgu cyfunol a dysgu ar-lein.	2. Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, darparwyr y Cynllun Sabothol, consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, partneriaethau AGA	2. Parhaus
3. Datblygu porth cenedlaethol i ddarparu gwybodaeth glir am y rhaglen genedlaethol o gyrsiau Cymraeg.	3. Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol	3. Medi 2022
4. Sefydlu'r rhaglen genedlaethol o gyrsiau Cymraeg o fewn y Llwybr Dysgu i gynorthwywyr addysgu er mwyn sicrhau llwybr clir iddynt ddatblygu eu sgiliau.	4. Ysgolion, consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol	4. O fis Medi 2022

Camau gweithredu	Cyfrifoldeb	Pryd
5. Gan adeiladu ar y gwaith sydd wedi dechrau ar becyn ôl-ofal, rhoi cymorth a hyfforddiant dilynol i ymarferwyr sydd wedi cwblhau cyrsiau'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg.	5. Darparwyr y Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg, ysgolion, consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol	5. Bob blwyddyn
6. Sicrhau bod ysgolion yn cynllunio mewn ffordd systematig er mwyn helpu ymarferwyr i ddefnyddio eu sgiliau newydd ar ôl iddynt ddychwelyd i'r ysgol ar ddiwedd y cwrs.	6. Ysgolion, consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol	6. Bob blwyddyn
7. Yn seiliedig ar waith dadansoddi data a chynlluniau datblygu ysgolion, gwella'r broses o dargedu ymarferwyr i'w recriwtio i fynychu cyrsiau.	7. Ysgolion, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol	7. Bob blwyddyn

**Amcan 3.3: Darparu rhaglen genedlaethol o gyfleoedd dysgu proffesiynol er mwyn datblygu dysgu ac addysgu'r Gymraeg a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg yn effeithiol**

Camau gweithredu	Cyfrifoldeb	Pryd
1. Datblygu a chyflwyno rhaglen genedlaethol o gyfleoedd dysgu proffesiynol i gefnogi addysgu'r Gymraeg yn y Cwricwlwm i Gymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddarparu:	1. Llywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, darparwyr y Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg, prifysgolion	1. O fis Medi 2022

Camau gweithredu	Cyfrifoldeb	Pryd
<ul style="list-style-type: none"> <li>• cymorth i weithredu'r fframwaith Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg</li> <li>• cymorth ar fethodoleg caffael ail iaith a Chymraeg fel iaith ychwanegol</li> <li>• cymorth i ddatblygu sgiliau llythrennedd Cymraeg</li> <li>• cymorth ar fethodoleg trochi cynnar a hwyr</li> <li>• cymorth ar sut i normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg</li> <li>• cymorth ar ymgorffori'r Gymraeg i bob rhan o'r cwricwlwm.</li> </ul>		
<p>2. Datblygu a chyflwyno rhaglen genedlaethol o gyfleoedd dysgu proffesiynol i gefnogi addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddarparu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cymorth ar fethodoleg addysgu dwyieithog</li> <li>• cymorth i athrawon sydd newydd gymhwyso ac athrawon sydd yng nghyfnod cychwynnol eu gyrfa mewn arbenigeddau pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg</li> <li>• cymorth ar gyfer rhwydweithiau ffurfiol ac anffurfiol o ysgolion cyfrwng Cymraeg</li> </ul>	<p>2. Awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, CYDAG</p>	<p>2. Bob blwyddyn o fis Medi 2022</p>

Camau gweithredu	Cyfrifoldeb	Pryd
<ul style="list-style-type: none"> <li>cymorth i athrawon i ddatblygu arbenigedd pwnc mewn meysydd ychwanegol.</li> </ul>		
<p>3. Adeiladu ar waith clystyrau cyfredol i ddatblygu arbenigedd addysgu'r Gymraeg ym mhob ysgol gynradd cyfrwng Saesneg, er enghraifft, drwy hwyluso secondiadau i rai ymarferwyr sydd wedi dilyn y cwrs Cymraeg mewn Blwyddyn, neu ariannu arweinwyr Cymraeg ym mhob clwstwr.</p>	<p>3. Consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol</p>	<p>3. Parhaus</p>
<p>4. Defnyddio rhwydwaith Trafod Addysgeg i alluogi ymarferwyr i gymryd rhan mewn trafodaethau anffurfiol ar addysgu iaith ac i rannu arferion.</p>	<p>4. Consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, CYDAG</p>	<p>4. Parhaus</p>
<p>5. Er mwyn cyflawni amcanion 3.3 a 3.4 byddwn yn adolygu'r cyllid sydd ar gael ar hyn o bryd i gefnogi'r gwaith o ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol a chymorth i weithredu CSCA er mwyn sefydlu ffrydiau ariannu a deilliannau clir.</p>	<p>5. Llywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol</p>	<p>5. Erbyn mis Ionawr 2023</p>

**Amcan 3.4: Datblygu a rhannu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer addysgu iaith, ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog yn effeithiol**

Camau gweithredu	Cyfrifoldeb	Pryd
1. Annog ymarferwyr i ymgymryd â gwaith ymholi proffesiynol mewn meysydd perthnasol fel sail i arferion addysgu.	1. Awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, prifysgolion	1. Bob blwyddyn
2. Defnyddio'r rhwydwaith Trafod Addysgeg i rannu gwaith ymchwil, gwybodaeth ac arferion yn y maes hwn ymhlith ymarferwyr ac ysgolion.	2. Llywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol	2. Parhaus
3. Comisiynu adolygiad o'r dystiolaeth o ddulliau trochi ieithyddol a datblygu adnodd i rannu canfyddiadau'r gwaith ymchwil gydag ymarferwyr.	3. Llywodraeth Cymru	3. Yn ystod 2022 i 23
4. Defnyddio'r rhwydwaith addysg uwch cydweithredol ar addysg Gymraeg a dwyieithog i: <ul style="list-style-type: none"> <li>• nodi gwaith ymchwil cyfredol mewn meysydd perthnasol</li> <li>• cydweithio i gomisiynu a cheisio cyllid i gefnogi gwaith ymchwil newydd mewn meysydd perthnasol</li> <li>• gweithio gyda rhanddeiliaid i rannu gwaith ymchwil gydag ymarferwyr.</li> </ul>	4. Prifysgolion	4. Bob blwyddyn

Camau gweithredu	Cyfrifoldeb	Pryd
5. Annog y defnydd o ysgoloriaethau ôl-radd i ymgymryd â gwaith ymchwil mewn meysydd perthnasol i gefnogi'r cynllun hwn.	5. Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, prifysgolion	5. Bob blwyddyn

#### **Nod 4: Meithrin gallu arweinwyr ysgolion cyfrwng Cymraeg a sicrhau bod gan bob arweinydd y sgiliau sydd eu hangen i gynllunio datblygiad y Gymraeg yn strategol o fewn diwylliant o ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu**

Mae'r diwygiadau a wneir ar hyn o bryd i'n system addysg yn ei gwneud yn ofynnol i arweinwyr ysgolion gael eu paratoi a'u cefnogi'n dda i arwain eu sefydliadau drwy'r newidiadau i'r cwricwlwm. Mae cefnogi'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru fel rhan o ddarpariaeth ac ethos yr ysgol, addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a gwneud gwaith cynllunio strategol i feithrin sgiliau iaith ymarferwyr yn rolau allweddol i arweinwyr.

Sefydlwyd yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (AGAA) yn 2018. Ei phrif bwrpas yw:

- cyfrannu at ddatblygu gallu proffesiynol arweinwyr presennol a darpar arweinwyr ar draws y system addysg drwy gydlyn a sicrhau ansawdd yr ystod o gyfleoedd datblygu ym maes arweinyddiaeth addysgol sydd ar gael yng Nghymru
- gweithredu fel arweinydd cysyniadau, gan ddatblygu, mynegi a gweithredu gweledigaeth a strategaeth ar gyfer arweinyddiaeth addysgol yng Nghymru
- bod yn aelod uchel ei barch a gweithgar o haen ganol addysg, y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer y gweithlu addysgol o ran materion arweinyddiaeth.

Er mwyn inni gynyddu nifer y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn unol â gweledigaeth Cymraeg 2050, bydd angen inni sicrhau cyflenwad digonol o benaethiaid ac uwch-arweinwyr i'r sector.

Er mwyn bod yn bennaeth yng Nghymru, mae'n ofynnol i arweinwyr ennill y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP). Consortia rhanbarthol sy'n gweinyddu'r CPCP. Mae data cyfredol yn dangos bod y nifer a aseswyd ar gyfer y CPCP yn Gymraeg wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf. Dros y 10 mlynedd nesaf mae angen gweithio gyda'r AGAA a rhanddeiliaid haen ganol eraill i gefnogi'r gwaith o feithrin gallu arweinwyr ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Ochr yn ochr â datblygu arweinwyr ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg, mae angen i ni hefyd sicrhau bod pob arweinydd a darpar arweinydd yn y sector cyfrwng Saesneg yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o sut i wireddu gweledigaeth Cymraeg 2050 yn eu hysgolion.



## Cynnydd hyd yn hyn

- Yn 2020 i 2021 dyfarnodd AGAA gyllid arloesi i gonsortia rhanbarthol er mwyn cynnal rhaglen arweinyddiaeth beilot wedi'i hanelu at arweinwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Nod y rhaglen hon ar gyfer aelodau uwch dimau arwain ysgolion oedd mynd i'r afael â datblygu a hyrwyddo'r Gymraeg yn yr ysgol gyfan.
- Comisiynodd AGAA ei bartneriaeth gyswllt i baratoi'r adroddiad '[Beth yw rôl arweinyddiaeth addysgol wrth wireddu gweledigaeth Cymru o ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus?](#)'.
- Cyflwynwyd y CPCP yn genedlaethol gyda charfan flynyddol o unigolion yn paratoi i fod yn benaethiaid ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg.

## Ein hamcanion dros y 10 mlynedd nesaf

### Amcan 4.1: Datblygu cyflenwad digonol o arweinwyr ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg

Camau gweithredu	Cyfrifoldeb	Pryd
1. Defnyddio ffynonellau data perthnasol wrth gynllunio olyniaeth mewn perthynas ag arweinwyr.	1. Llywodraeth Cymru, AGAA, CGA, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol	1. Parhaus
2. Targedu darpar arweinwyr i ymgymryd â CPCP drwy gyfrwng y Gymraeg	2. Consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol	2. Bob blwyddyn
3. Defnyddio llwybrau i arweinwyr canol er mwyn darganfod a chefnogi penaethiaid y dyfodol a'u coetsio a'u mentora.	3. Consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol	3. Bob blwyddyn

**Amcan 4.2: Cefnogi arweinwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o sut i wireddu gweledigaeth Cymraeg 2050 yn eu hysgolion.**

Camau gweithredu	Cyfrifoldeb	Pryd
1. Parhau i gyflwyno'r rhaglen arweinyddiaeth ar gyfer datblygu a hyrwyddo'r Gymraeg mewn ysgolion cyfan a'i chyflwyno i'w chymeradwyo gan AGAA.	1. Consortia rhanbarthol, AGAA	1. Bob blwyddyn
2. Datblygu pecyn cymorth i benaethiaid ei ddefnyddio ochr yn ochr â'r 'adnodd cenedlaethol: gwerthuso a gwella' i'w helpu i hunanwerthuso taith eu hysgolion wrth ddatblygu'r Gymraeg.	2. Llywodraeth Cymru, AGAA, penaethiaid, consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol	2. Erbyn mis Medi 2022
3. Datblygu a darparu dysgu proffesiynol i'r rhai sy'n cefnogi arweinwyr (er enghraifft cynghorwyr herio neu lywodraethwyr) i'w galluogi i gefnogi ysgolion ar eu taith i ddatblygu'r Gymraeg.	3. Consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, AGAA	3. Cyflawni o fis Medi 2023
4. Cynnwys modiwlau ar ddatblygiad strategol y Gymraeg mewn ysgolion fel rhan o'r holl raglenni arweinyddiaeth.	4. Consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, AGAA	4. Bob blwyddyn

## Rolau a chyfrifoldebau

Er mwyn cyflawni'r cynllun hwn yn llwyddiannus, mae angen i'r holl randdeiliaid gydweithio i roi'r camau gweithredu ar waith. Lle mae rhanddeiliaid wedi'u henwi fel rhan o'r gwaith o gyflawni camau gweithredu penodol, byddwn yn disgwyl iddynt adrodd ar gynnydd a chefnogi Llywodraeth Cymraeg i adolygu'r cynllun hwn yn rheolaidd. Mae'r tabl isod yn crynhoi rolau a chyfrifoldebau'r holl randdeiliaid allweddol.

Sefydliad	Rôl
Llywodraeth Cymru	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Pennu meini prawf achredu ar gyfer AGA</li> <li>• Casglu a dadansoddi data ar y gweithlu drwy'r CBGY</li> <li>• Cymeradwyo a monitro CSCA awdurdodau lleol er mwyn cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a chynllunio'r gweithlu Cymraeg a chyfrwng Cymraeg</li> <li>• Ariannu gweithgarwchdysgu proffesiynol Cymraeg</li> <li>• Strategaeth farchnata gyffredinol – ymgyrch Safon Uwch ac ymgyrch recriwtio ar gyfer AGA mewn partneriaeth â CGA a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol</li> </ul>
Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) (gan gynnwys y Bwrdd Achredu Addysg Athrawon)	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Swyddogaeth statudol i achredu rhaglenni AGA a'u monitro drwy'r Bwrdd Achredu Addysg Athrawon</li> <li>• Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddadansoddi data'r gweithlu a phennu targedau derbyn ar gyfer partneriaethau AGA</li> <li>• Hyrwyddo addysgu fel gyrfa</li> <li>• Ymgyrchoedd recriwtio ar gyfer AGA mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru</li> </ul>
Estyn	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Arolygu ysgolion a lleoliadau a darparu gwybodaeth am addysgu'r Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg</li> <li>• Arolygu partneriaethau AGA, consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol</li> <li>• Cynnal adolygiadau thematig i feysydd sy'n berthnasol i weithredu'r cynllun hwn</li> </ul>
Partneriaethau AGA (gan gynnwys ysgolion)	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Recriwtio athrawon dan hyfforddiant i gyrsiau</li> <li>• Cynnig gwersi Cymraeg fel rhan o AGA</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Meithrin gallu athrawon dan hyfforddiant i addysgu'n effeithiol drwy gyfrwng y Gymraeg</li> </ul>
Ysgolion	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnig gwybodaeth a mewnbwn i atebion a fydd yn arwain at gynyddu'r gweithlu cyfrwng Cymraeg</li> <li>• Arweinwyr i hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn barhaus yn unol â safonau proffesiynol</li> <li>• Cynlluniau datblygu ysgolion i amlinellu eu dull o wella'r ffordd y caiff y Gymraeg ei haddysgu a galluogi athrawon i feithrin eu sgiliau Cymraeg yn unol â safonau proffesiynol</li> </ul>
Partneriaethau/consortia rhanbarthol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithio gydag awdurdodau lleol i ddadansoddi sgiliau'r gweithlu</li> <li>• Cynnal rhaglen o ddysgu proffesiynol gydol gyrfa o'r cyfnod sefydlu i lefel arweinwyr</li> <li>• Cyngorwyr herio i helpu ysgolion i wella'r ffordd y caiff yr iaith ei haddysgu a'i hyrwyddo yn ogystal â blaenoriaethu meysydd i'w gwella</li> <li>• Cefnogi llwybrau AGA rhan-amser a llwybrau AGA cyflogedig gyda'r Brifysgol Agored</li> </ul>
Awdurdodau lleol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg mewn ffordd strategol ar gyfer CSCA</li> <li>• Cynllunio'r gweithlu cyfrwng Cymraeg fel rhan o CSCA</li> </ul>
Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (AGAA)	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithredu fel arweinydd cysyniadau gan ddatblygu, mynegi a gweithredu gweledigaeth a strategaeth ar gyfer arweinyddiaeth addysgol yng Nghymru, gan gynnwys arwain ym maes Cymraeg mewn addysg</li> <li>• Cydlynu a sicrhau ansawdd yr ystod o gyfleoedd datblygu arweinyddiaeth addysgol sydd ar gael yng Nghymru</li> </ul>
Y Bwrdd Cyngori ar Recriwtio a Chadw Athrawon	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhoi cyngor ar faterion yn ymwneud â recriwtio a chadw athrawon</li> </ul>

CYDAG	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Corff sy'n cynrychioli ysgolion cyfrwng Cymraeg</li> <li>• Cydgysylltu dysgu proffesiynol</li> <li>• Cydgysylltu ymatebion i bolisi Llywodraeth Cymru</li> <li>• Hwyluso cydweithio rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg</li> </ul>
Darparwyr hyfforddiant Cymraeg (gan gynnwys y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol)	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnal cyrsiau'r Cynllun Sabothol iaith Gymraeg</li> <li>• Datblygu dulliau dysgu hyblyg a chyfunol ar gyfer dysgu Cymraeg</li> </ul>
Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygu'r llif o athrawon cyfrwng Cymraeg dan hyfforddiant drwy ddarpariaeth i israddedigion a chefnogaeth i'r Gymraeg ar Safon Uwch</li> <li>• Meithrin sgiliau iaith israddedigion er mwyn paratoi ar gyfer AGA</li> <li>• Cydweithio â Llywodraeth Cymru a CGA i hyrwyddo addysgu fel gyrfa</li> <li>• Ymgymryd â chymedroli sgiliau iaith athrawon dan hyfforddiant drwy gyllid grant Llywodraeth Cymru</li> <li>• Darparu cyngor a chefnogaeth i CGA a phartneriaethau AGA i ddatblygu AGA cyfrwng Cymraeg</li> </ul>
Comisiynydd y Gymraeg	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflawni swyddogaethau rheoleiddio mewn perthynas â'r Gymraeg</li> </ul>
Adrannau Cymraeg prifysgolion	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithio gydag ysgolion i ddatblygu'r llif o ddysgwyr sy'n dewis astudio'r Gymraeg fel pwnc gradd</li> </ul>

## Monitro

Mae hwn yn gynllun tymor hir sy'n gofyn am gylchoedd cynllunio i sicrhau darpariaeth gynaliadwy. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu'r arweiniad cyffredinol ar gyfer datblygiadau, ond mae'n hanfodol bod ein holl bartneriaid yn cydweithio â ni wrth inni symud ymlaen i gyflawni'r cynllun hwn. Bydd angen i rai datblygiadau gael eu rhoi ar waith yn gyflym. Byddwn yn:

- sefydlu grŵp llywio o arbenigwyr o'r sector i gynghori ar weithredu
- ymgynghori â'n rhanddeiliaid allweddol ar ddatblygiadau penodol drwy grwpiau gorchwyl a gorffen
- monitro a gwerthuso'r camau a gymerwyd yn barhaus ac adolygu'r cynllun yn ffurfiol ar ôl 5 mlynedd
- ystyried arfer gorau rhyngwladol wrth i ni symud ymlaen â'r gweithredu.

Mae strategaeth Cymraeg 2050 yn gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, gan gynnwys targedau ar gyfer nifer yr athrawon sydd eu hangen i addysgu'r Gymraeg fel pwnc ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd yn erbyn y targedau hyn yn Adroddiad Blynyddol Cymraeg 2050. Yn ogystal, byddwn hefyd yn defnyddio'r dangosyddion canlynol i fonitro cynnydd gan ddefnyddio ffynonellau data perthnasol a diweddarau'r dogfennau dadansoddiad data a'r crynodeb o CSCA cysylltiedig bob 2 flynedd:

- nifer y myfyrwyr AGA sy'n paratoi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
- nifer y dysgwyr sy'n astudio Safon Uwch Cymraeg
- nifer y dysgwyr sy'n astudio pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg ôl-16
- nifer y cynorthwywyr addysgu sy'n gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg
- nifer yr arweinwyr sy'n gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg
- cyfran y gweithlu sydd â sgiliau iaith ar lefel sylfaen
- cyfran y gweithlu sydd â sgiliau iaith ar lefel ganolradd neu uwch
- nifer yr ymarferwyr sy'n cwblhau cyrsiau Cymraeg ar wahanol lefelau.

## Atodiad 1: Y daith i ddod yn athro a'r rhanddeiliaid perthnasol

	<b>Cynradd ac uwchradd hyd at TGAU</b>	<b>Safon Uwch/ôl-16</b>	<b>Gradd israddedig</b>	<b>Addysg gychwynnol i athrawon</b>
<b>Cynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg</b>	Awdurdodau lleol, CSCA	Awdurdodau lleol, colegau addysg bellach, CSCA, cynllunio ôl-16	Prifysgolion, Coleg Cymraeg Cenedlaethol	Partneriaethau AGA
<b>Y ddarpariaeth</b>	Ysgolion, e-sgol	Ysgolion, colegau addysg bellach, e-sgol	Prifysgolion	Partneriaethau AGA
<b>Achredu</b>	Cymwysterau Cymru, CBAC	Cymwysterau Cymru, CBAC a chyrrff dyfarnu eraill	Prifysgolion	Bwrdd Achredu Addysg Athrawon, CGA
<b>Asiantaethau ategol</b>	CYDAG, consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol	CYDAG, consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol	Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol	Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (cymedroli sgiliau yn y Gymraeg), y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (sgiliau yn y Gymraeg)
<b>Monitro/sicrhau ansawdd</b>	Estyn, consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol	Estyn, consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol	Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch	Y Bwrdd Achredu Addysg Athrawon, Estyn

<b>Cyllid ychwanegol</b>		Safon Uwch Cymraeg (y Coleg Cymraeg Cenedlaethol)	Ysgoloriaethau (trwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol)	Iaith Athrawon Yfory, cymedroli sgiliau ieithyddol (trwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol)
<b>Cyfathrebu</b>	Ysgolion	Ysgolion, colegau addysg bellach, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, prifysgolion, Llywodraeth Cymru	Prifysgolion, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol	Partneriaethau AGA, CGA, Llywodraeth Cymru



## Atodiad 2: Dysgu proffesiynol iaith Gymraeg i ymarferwyr addysg

Mae'r tabl isod yn dangos y cyrsiau sydd ar gael, ond mae model y Cynllun Sabothol iaith Gymraeg yn hyblyg a gellir addasu strwythur y cyrsiau.

Lefel a ddefnyddir yn y Fframwaith cymwyseddau iaith Gymraeg ymarferwyr addysg						
Dim sgiliau Cymraeg	Cyn-fynediad	A1 – Mynediad	A2 – Sylfaen	B1 – Canolradd	B2 – Uwch	C1 – Hyfedredd
Nodweddion y gweithlu, CCBGY: Codau gallu yn y Gymraeg						
W1	Dim ond i'w defnyddio mewn AGA	W2	W3	W4	W5	W6
Dysgu proffesiynol ar gael trwy'r Cynllun Sabothol iaith Gymraeg Costau cyrsiau, cyflenwi a theithio ychwanegol wedi'u hariannu a'u had-dalu gan Lywodraeth Cymru						
Amherthnasol	Amherthnasol	Cwrs 5 wythnos o hyd i gynorthwywyr addysgu mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg	Cwrs 3 mis o hyd ar gyfer athrawon mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg	Cwrs 8 wythnos o hyd i athrawon mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg a dwyieithog	Cyrsiau i'r rheini sydd wedi dysgu Cymraeg i fod yn weddol rhugl ac i siaradwyr naturiol sy'n dymuno datblygu eu hyder a chael terminoleg arbenigol. Mae'r ddarpariaeth ar lefel uwch yn hyblyg ac mae modd ei theilwra at anghenion carfanau penodol. Dyma enghreifftiau o hyn: <ul style="list-style-type: none"> <li>Cwrs dysgu cyfunol rhan-amser dros 12 wythnos ar gyfer athrawon mewn ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Saesneg a dwyieithog</li> <li>Cwrs dysgu cyfunol rhan-amser dros 12 wythnos ar gyfer athrawon mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg sy'n cynnwys tiwtoriaid yn arsylwi ar gyfranogwyr yn eu lleoliadau</li> <li>Cwrs rhan-amser dros 10 wythnos ar gyfer cynorthwywyr addysgu mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog</li> <li>Cwrs rhan-amser 5 wythnos o hyd ar gyfer athrawon uwchradd nad ydynt yn arbenigwyr sy'n addysg'r Gymraeg fel pwnc</li> </ul>	
			Cwrs llawn amser dros 2 dymor sy'n cyfuno'r cyrsiau sylfaen a chanolradd i athrawon mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg.			
		Cwrs Cymraeg mewn Blwyddyn ar gyfer athrawon mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg. Mae'n rhaid i athrawon gael eu rhyddhau o'r ysgol am flwyddyn academiaidd gyfan.				
Dysgu proffesiynol ar gael drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol Cyrsiau rhad ac am ddim. Ysgolion i gymeradwyo/ariannu amser ymarferwyr gan ddefnyddio'r Grant Dysgu Proffesiynol						
	Cwrs blasu hunan-astudio 10 awr i ymarferwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg	Cwrs ar-lein 120 awr gyda chymorth tiwtor i ymarferwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg				Cwrs 'Gloywi' hunan-astudio 10 awr o hyd ar gyfer ymarferwyr sydd am fireinio eu sgiliau Cymraeg
Dysgu proffesiynol ar gael drwy gonsortia rhanbarthol a/neu awdurdodau lleol Ysgolion i gymeradwyo/ariannu amser ymarferwyr gan ddefnyddio'r Grant Dysgu Proffesiynol						
Amrywiaeth o gymorth a darpariaeth a gyflwynir gan y timau Cymraeg mewn addysg. Cysylltwch â'ch consortiwm neu'ch awdurdod lleol i gael rhagor o wybodaeth						